# Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Chwefror 2024
drwy Teams

## Yn bresennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Phillip | Barlow | PB | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Lee | Clarke | LC | Cyngor Sir Caerdydd |
| Vicky | Doyle | VD | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Suzanne | Draper | SD | Data Cymru |
| Janine | Edwards | JE | Cyd-fenter Gwella Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru |
| Bea | Jeffries | BJ | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Nia | Jones | NJ | Llywodraeth Cymru |
| Helen | Jones | HJ | Ymchwil y Senedd |
| Steve | King | SK | Dinas a Chyngor Abertawe |
| Henry | Knowles | HK | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Sue | Leake | SL | Cadeirydd, Llywodraeth Cymru |
| Morgan | Lowden | ML | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Geraint | Morgan | GM | Cyngor Sir Powys |
| Andy | O'Rourke | AO | Llywodraeth Cymru |
| Kay | Palmer | KP | Archwilio Cymru |
| Jonathan | Radcliffe | JR | Chwaraeon Cymru |
| Hayley | Randall | HR | Data Cymru |
| Lesley | Rees | LR | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Elaine | Smith | ES | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Helena | Snuggs | HS | Chwaraeon Cymru |
| Caitlin | Theodorou | CT | Cyngor Sir Ceredigion |
| Sian-Elin | Wyatt | SEW | ONS Local |
| Nia | Wyn Vaughan | NWV | Cyngor Gwynedd |

## Siaradwyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sue | Leake | SL | Llywodraeth Cymru |
| Stefanie | Taylor | ST | Llywodraeth Cymru |
| John | Morris | JM | Llywodraeth Cymru |
| Sam | Sullivan | SS | Data Cymru |
| Ana | Harries | AH | Data Cymru |
| Scott | Clifford | ScC | Llywodraeth Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Samantha | Collins | SC | Llywodraeth Cymru |
| Andy | O'Rourke | AO | Llywodraeth Cymru |
| Nathan | Hughes | NH | Llywodraeth Cymru |
| Luke | Raymond | LR | Llywodraeth Cymru |

**Cofnodwyr**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ciaran | Lewis | CL | Llywodraeth Cymru |
| Nathan | Hughes | NH | Llywodraeth Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | | |
|---|---|---|
| Sioned | Cardew-Richardson | Estyn |
| Brett | Davis | Heddlu De Cymru |
| Caryn | Furlow | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Steph | Howarth | Llywodraeth Cymru |
| Eleri | James | Comisiynydd y Gymraeg |
| Steve | King | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| 1 | **Croeso, Cyflwyniad ac Ymddiheuriadau** – Sue Leake, Llywodraeth Cymru | Camau gweithredu |
|---|---|---|
| | Dechreuodd SL drwy gyflwyno pawb a rhoi trosolwg cryno o'r agenda.<br><br>Nododd JE y byddai'n ddefnyddiol pe bai holl ddogfennau'r cyfarfod yn cael eu rhannu gyda'i gilydd mewn un ffeil Zip. | Yr Ysgrifenyddiaeth i ystyried anfon y papurau gyda'i gilydd mewn ffeil Zip |
| **2** | **Nodyn o'r cyfarfod diwethaf, diweddariad ar bwyntiau gweithredu, diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru, diweddariad ar ddemograffeg a diweddariad ar ddyfodol ystadegau poblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr** – Sue Leake, Llywodraeth Cymru | |
| | Nodyn o'r cyfarfod diwethaf:<br>- Ni chodwyd unrhyw sylwadau ar nodiadau'r cyfarfod diwethaf.<br><br>Diweddariad ar y pwyntiau gweithredu:<br>- Trafodwyd y cynnydd a wnaed ar y pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf.<br>- Roedd dau o'r tri cham gweithredu wedi'u cwblhau, gydag ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar ystadegau poblogaeth a mudo yn cael ei gyflwyno i SYG ym mis Hydref 2023, a diweddariad ar enwi AGEHI yn digwydd yn ystod y cyfarfod hwn.<br><br>Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru:<br>Tynnodd SL sylw at sawl adran o'r diweddariad fel: | SL i ystyried gwahodd cynrychiolydd o Gofal Cymdeithasol Cymru i gymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn ac ystyried cynnwys eitem ar yr agenda yn y dyfodol ar ddata gofal cymdeithasol –<br><br>SL i gadarnhau'r sefyllfa mewn |

| | | |
|---|---|---|
| | - Yr ystadegau ar y farchnad lafur a'r materion sy'n ymwneud ag ansawdd y data o'r Arolwg o'r Llafurlu yn ddiweddar. Nodwyd hefyd fod blog ac erthygl ar [ailbwysoli ystadegau'r Arolwg o'r Llafurlu]() newydd gael eu cyhoeddi ym mis Chwefror.<br>- Data ar absenoldeb o'r ysgol cyn ac ar ôl y pandemig.<br>- Mae gan ystadegau addysg ôl-16 ddangosfwrdd newydd ar ddata prentisiaethau ac mae'r cynllun i symud rhai o aelodau'r tîm ystadegau addysg ôl-16 i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wedi cael ei ohirio nes mis Awst<br>- Mae data ar unigolion digartref mewn llety / tai dros dro wedi cael eu diweddaru<br>- Diweddariad ar ddata'r dreth gyngor ar ail gartrefi y codir y dreth gyngor arnynt yn ôl AGEHG<br>- Llawer o allbynnau ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd<br>- Dadansoddiad yn cymharu amseroedd ymateb ambiwlansys ledled y DU, o safbwynt sut y caiff y data eu trin<br>- Data o Arolwg Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar unigrwydd a gwirfoddoli<br>- Bydd data tlodi ar gael yn ystod y misoedd nesaf<br>- Crynodeb chwarterol newydd ar ddata'r Gronfa Cymorth Dewisol<br>- Dadansoddiad newydd o'r cyfrifiad sy'n edrych ar nodweddion poblogaeth y rheini sydd fwyaf tebygol o fyw yn ardaloedd amddifad MALIC<br>- Data iechyd, data tai a data economaidd sy'n ymwneud â'r Cyfrifiad<br>- Ystadegau ar y Gymraeg o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r Cyfrifiad<br>- Ystadegau newid hinsawdd ac amaethyddiaeth mewn perthynas â thipio anghyfreithlon<br>- Cynhaliwyd cynhadledd YDG ym mis Tachwedd.<br><br>Nododd SL y cyfyngiadau ariannol presennol yn Llywodraeth Cymru a all arwain at newidiadau yn yr hyn y gallwn ei flaenoriaethu. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chydweithwyr yn ystod y broses hon wrth inni ystyried anghenion defnyddwyr yn ofalus.<br><br>Cododd JE fater yn ymwneud â data gofal cymdeithasol ac awgrymodd y gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys eitem ar yr agenda ar y pwnc hwn yn y dyfodol, i gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru.<br><br>[Diweddariad demograffeg Ystadegau Cymru]():<br>Fel y nodir yn y ddogfen, cafodd yr amcangyfrifon canol blwyddyn ar gyfer 2022 eu gohirio gan y SYG tan ddiwedd mis Tachwedd.<br><br>Arweiniodd y diweddariad hwn at rai pwyntiau trafod diddorol:<br>- Diweddariad y SYG ar ei chynigion ar gyfer ystadegau poblogaeth a mudo yn y dyfodol ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad mewn perthynas â hyn. Mae'r SYG wedi cael tua 700 o ymatebion i'r ymgynghoriad. | perthynas â POPGROUP â Martin Parry a rhoi gwybod i'r aelodau<br><br>Aelodau i gysylltu â Janine Edwards os oes ganddynt ddiddordeb mewn trafod data demograffeg ymhellach |

| | | |
|---|---|---|
| | - Amlygu'r angen am ddata ar ardaloedd bach yng Nghymru.<br>- Cafodd yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol interim eu gohirio<br>- Mae'n debygol na chaiff adnodd modelu POPGROUP ei ddefnyddio mwyach<br>- Bydd y SYG yn cynnal ymgynghoriad ar ganlyniadau aelwydydd is-genedlaethol a chaiff gweithdy ei gynnal. | |
| **3** | **Diweddariad ar enwi AGEHI** – Stefanie Taylor a John Morris, Llywodraeth Cymru | |
| | Cafwyd crynodeb gan ST o'r materion mewn perthynas ag enwi ACEHIau a drafodwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf a diolchwyd i'r rhai a ymatebodd i'r fethodoleg arfaethedig. Crybwyllodd SL fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi set newydd o enwau AGEHI yn seiliedig ar enwau cymunedau lleol a'i bod yn croesawu adborth.<br><br>Roedd dryswch i'w weld yn yr ymatebion ynghylch y ffaith nad oedd yr enwau AGEHI arfaethedig wedi'u rhifo.<br><br>Mae gan MapDataCymru ffiniau'r cyfrifiad ond nid oes ganddo'r enwau arfaethedig nad ydynt wedi cael eu pennu na'u cyhoeddi eto.<br><br>Cafwyd diweddariad ar y camau nesaf a nodwyd bod modd gwneud awgrymiadau o hyd – bydd JM yn gweithio ar yr adrannau aneddiadau ac yna'n ymchwilio i ffordd effeithlon o gysylltu ag awdurdodau lleol.<br><br>Gobeithio lanlwytho darn ar dudalen blog y prif ystadegydd yn ystod yr wythnosau nesaf i roi diweddariad arall a rhoi gwybod i randdeiliaid am y gwaith. Caiff dolen ei rhannu pan fydd ar gael.<br><br>Cyfrannodd aelodau amrywiol safbwyntiau o'u hardaloedd ac argymhellodd JM y dylid cynnal sgyrsiau ar wahân â'r rhai sydd â diddordeb er mwyn cael y trosolwg gorau posibl i helpu gyda'r fethodoleg a'r broses fyfyrio.<br><br>Y senario gorau posibl fyddai ceisio cael consensws ar y broses enwi a chadw'r enwau yn gyson. | JM i ystyried y ffordd orau o gysylltu â'r awdurdodau lleol angenrheidiol i feithrin consensws ar y broses enwi AGEHI |
| **4** | **Diweddariad Data Cymru -** Sam Sullivan ac Ana Harries, Data Cymru | |
| | Rhoddodd SS drosolwg o Data Cymru a'i waith.<br><br>Rhoddodd SS ddiweddariad ar yr Arolwg Cenedlaethol o Breswylwyr drwy edrych ar yr anghenion, y weledigaeth, y nodau, y gwaith a wnaed hyd yma a'r camau nesaf (gweler y Sleidiau).<br>Atebodd gwestiynau am hygyrchedd, iaith a pha awdurdodau lleol sy'n rhan o'r gweithgor.<br>Rhannodd LR ei phrofiad o gynnal arolwg o breswylwyr yn Sir Gaerfyrddin. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddodd AH ddiweddariad ar y Set Ddata Hunanasesu Perfformiad (SAPD), sef adnodd i helpu awdurdodau lleol i ddeall eu perfformiad yn erbyn gofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Gwnaethant edrych ar y ffordd y mae wedi cael ei ddatblygu fel adnodd i helpu awdurdodau lleol gyda hunanasesiadau. Caiff yr adnodd ei adnewyddu bob wythnos ac mae ar gael yma. Rhoddwyd sylw hefyd i'r Rhwydwaith Data Perfformiad Corfforaethol (CPDn) a chamau nesaf SAPD.<br>Mae sleidiau ar y pynciau hyn ar gael. | |
| 5 | **Casglu data ar Gydraddoldebau i Gyrff y Sector Cyhoeddus: canfyddiadau o gam 1 a'r cam nesaf** – Scott Clifford a Samantha Collins, Llywodraeth Cymru | |
| | Dechreuodd SC drwy adolygu'r pwnc, gwybodaeth gefndir a syniadau cyffredinol ynghylch casglu data.<br><br>Trafododd SC y ddau arolwg a gynhaliwyd yn 2023 fel rhan o'u casgliad data peilot i edrych ar amrywiaeth cyrff yn y sector cyhoeddus. Cynhaliwyd yr arolwg cyntaf ar lefel cyrff cyhoeddus a gofynnwyd sut roedd gwybodaeth am amrywiaeth aelodau bwrdd a'r gweithlu ehangach yn cael ei chasglu. Cafodd yr ail arolwg ei anfon at aelodau bwrdd drwy'r cynrychiolydd dynodedig a gofynnwyd cwestiynau i'r aelodau bwrdd am eu nodweddion cydraddoldeb personol. Roedd eu hatebion yn cael eu cadw'n ddienw.<br><br>Yna trafododd ScC y camau nesaf, sy'n cynnwys cyhoeddi canfyddiadau cam un, cynnal trafodaethau pellach â rhanddeiliaid er mwyn deall y tirlun data yn well, ystyried opsiynau amgen ar gyfer casglu data, a rhannu cynlluniau ar gyfer cam dau.<br><br>**Trafodaeth**<br>Gofynnodd JE pa wybodaeth oedd yn cael ei chasglu am statws economaidd-gymdeithasol ac awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol cydweithio er mwyn dod i gytundeb ynghylch pa wybodaeth y mae'n briodol ei chasglu ar y mater hwn. Cafodd y cwestiwn wedi'i gysoni gan Wasanaeth Ystadegol Llywodraeth y DU ar gefndir economaidd-gymdeithasol ei rannu yn y sgwrs.<br><br>Gofynnodd NWV am argaeledd data ar nodweddion gwarchodedig swyddogion etholedig. Cyfeiriodd SS at rai ffynonellau o wybodaeth am yr arolygon o ymgeiswyr a chynghorwyr a'r casgliad ar y gweithlu. | |
| 6 | **Dadansoddiad newydd o Gyfrifiad 2021** – Scott Clifford, John Poole ac Andy O'Rourke, Llywodraeth Cymru | |
| | Dechreuodd ScC gyflwyno drwy siarad am ddata'r cyfrifiad a'u rôl wrth geisio deall anghydraddoldeb. Trafododd ddadansoddiadau poblogaeth yn ôl nodweddion gwarchodedig gan ddefnyddio allbynnau Cyfrifiad 2021. Tynnodd ScC sylw at y gwahaniaethau o ran cymwysterau, statws economaidd, iechyd a gofal di-dâl rhwng grwpiau amrywiol. Cyfeiriodd hefyd at waith yn y dyfodol ar | |

| | | |
|---|---|---|
| | hunaniaeth rhywedd a rhywiol, dadansoddiad croestoriadol, a chysylltu data.<br><br>Cyflwynodd AO rai canfyddiadau o ddadansoddiad o nodweddion pobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf amddifad Cymru, ar sail data o Gyfrifiad 2021 a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Dangosodd AO y gwahaniaethau o ran oedran, rhyw, anabledd, grŵp ethnig, iechyd, statws priodasol, crefydd, a gofal di-dâl rhwng pobl ar lefelau gwahanol o amddifadedd. Nododd hefyd rai cafeatau a rhai o gyfyngiadau'r dadansoddiad. Ceir dolen i'r dadansoddiad yma.<br><br>**Trafodaeth**<br>Gofynnodd NWV pryd y byddai MALIC yn cael ei ddiweddaru ac atebodd SL y byddai hynny'n digwydd rhywbryd ar ddiwedd 2025. Gofynnodd BJ a oes unrhyw gydberthynas rhwng y Gogledd a'r De neu wahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig a threfol yn nhermau llinellau amddifadedd. Atebodd AO nad ydynt wedi dadansoddi hyn eto ond y byddant yn ystyried y mater os bydd angen am hynny ymhlith defnyddwyr. | |
| 7 | **Ystyried beth mae defnyddwyr data cydraddoldebau ei eisiau gan StatsCymru, a chyflwyniad i'r siop un stop ar gyfer data cydraddoldebau -** Andy O'Rourke, Nathan Hughes a Luke Raymond, Llywodraeth Cymru | |
| | Cyflwynodd NH gynllun a strwythur newydd yr adran cydraddoldeb ar StatsCymru, sy'n canolbwyntio ar ffynonellau a nodweddion y data. Trafododd NH hefyd ganlyniadau archwiliad o'r defnydd a wnaed o adran cydraddoldeb StatsCymru o fis Tachwedd 2023.<br><br>Eglurodd AO yr opsiynau a'r heriau o ran cyhoeddi data o Gyfrifiad 2021 ar StatsCymru, a'r penderfyniad i ddefnyddio taenlenni ODS fel ateb dros dro. Rhestrodd hefyd y nodweddion a fyddai'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer y data a'r amserlen ar gyfer y datganiad.<br><br>Disgrifiodd LR y prosiect i greu tudalen we ganolog ar gyfer yr holl dystiolaeth ar gydraddoldeb yng Nghymru, a fyddai'n cynnwys data meintiol ac ansoddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Amlinellodd y nodau, yr ymchwil i ddefnyddwyr, a'r camau nesaf ar gyfer y prosiect.<br><br>**Trafodaeth**<br>Am fod amser yn brin, gofynnodd SL i'r aelodau gysylltu â'r cyflwynwyr os hoffent gael mwy o eglurhad neu os oedd ganddynt unrhyw beth i'w gyfrannu at eu hymdrechion. | |
| 8 | **Unrhyw Fater Arall** | |
| | Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 6 Mehefin 2024. Gwahoddodd SL aelodau â diddordeb o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru i ymuno â grŵp rhanddeiliaid ar gyfer prosiect ailddatblygu StatsCymru. | Aelodau sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o'r grŵp rhanddeiliaid ar gyfer ailddatblygu |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhannodd SEW y tudalennau gwe newydd a'r blog ar gyfer ONS Local a gwybodaeth am rai gweminarau a gynhelir yn fuan, a gwahoddodd yr aelodau i roi adborth ar ONS Local drwy lenwi holiadur.<br><br>Gofynnodd CT a fyddai hyfforddiant ar gael ar R i awdurdodau lleol.<br><br>Gwahoddodd SL yr aelodau i gysylltu os oedd ganddynt bynciau i'w trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. | StatsCymru i fynegi eu diddordeb. |

| | Camau gweithredu | Aelod(au) |
|---|---|---|
| 1 | Yr Ysgrifenyddiaeth i ystyried anfon y papurau gyda'i gilydd mewn ffeil Zip | Ysgrifenyddiaeth |
| 2 | SL i ystyried gwahodd cynrychiolydd o Gofal Cymdeithasol Cymru i gymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn ac ystyried cynnwys eitem ar yr agenda yn y dyfodol ar ddata gofal cymdeithasol | Sue Leake |
| 3 | SL i gadarnhau'r sefyllfa mewn perthynas â POPGROUP â Martin Parry a rhoi gwybod i'r aelodau | Sue Leake |
| 4 | Cysylltu â Janine Edwards os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn trafod gwybodaeth am ddemograffeg ymhellach | Pawb |
| 5 | JM i ystyried y ffordd orau o gysylltu â'r awdurdodau lleol angenrheidiol i feithrin consensws ar y broses enwi AGEHI | John Morris |
| 6 | Aelodau sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o'r grŵp rhanddeiliaid ar gyfer ailddatblygu StatsCymru i fynegi eu diddordeb. | Pawb |